**CYNGOR CYMUNED LLANRUG COMMUNITY COUNCIL**
**Clerc / Clerk: Mr Meirion Jones PSLCC**
**7 Nant y Glyn**
**Llanrug**
**Gwynedd**
**LL55 4AH**
**☎ 07769 112875**
**clerc@llanrug.cymru**

### Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, Adran 116

# Hysbysiad o Gyfethol

RHODDIR HYSBYSIAD TRWY HYN fod Cyngor Cymuned **LLANRUG** yn bwriadu Cyfethol **UN** aelod i lenwi'r lle(oedd) gwag sydd ar gael ar gyfer Cynghorydd yng Nghymuned (Ward) **LLANRUG** yn dilyn diffyg nifer enwebiadau ar gyfer yr Etholiadau cynhaliwyd ar 18 Medi 2020.

## Ydi eich cymuned yn bwysig i chi?

- A oes rhywbeth yr hoffech ei newid neu wella yn Llanrug a Cwm y Glo ar gyfer pobl leol?
- Ydych yn caru eich ardal ble rydych yn byw?
- A ydych yn barod i wneud penderfyniadau heriol?

Ydych wedi ystyried sefyll fel cynghorydd ar Gyngor Cymuned Llanrug? Mae'r Cyngor yn awyddus i lenwi sedd wag ar cyngor, i gynrychioli Llanrug.

**Beth ydi Cyngor Cymuned?**

Hwn yw'r haen o lywodraeth leol sydd agosaf at y bobl. Mae'n chwarae rôl bwysig drwy gynrychioli buddiannau'r gymuned, drwy weithredu i wella ansawdd bywyd, yr amgylchedd ac i ddarparu gwasanaethau i ddiwallu anghenion lleol. Mae'r cyngor yn codi'r rhan fwyaf o'i incwm drwy godi 'praesept', sef swm a gesglir o'r dreth gyngor bob blwyddyn.

**Beth mae Cyngor Cymuned Llanrug yn ei wneud?**

Yn ystod 2019 / 2020, fe ymgymerodd a'r canlynol sef:-

- cynnal a chadw dau faes chwarae yn Llanrug (Nant y Glyn a Pwll Moelyn),
- cynnal a chadw dau faes chwarae yn Cwm y Glo (Dolafon a Allt Goch)
- parc sglefrio Cwm y Glo;
- cyfrifoldeb am gyd gordio a gosod 4 diffibriliwr oddi fewn i'r ardal;
- cadw'r clwb ieuenctid ar agor yn Llanrug;
- gofalu am y maes parcio ger y Spar;
- cyflwyno sylwadau i Gyngor Gwynedd ar geisiadau cynllunio;

- gofalu am gysodfannau bysiau Llanrug a Cwm y Glo;
- gweinyddu'r cynllun o gymorth ariannol i fudiadau lleol mewn grantiau;
- gweinyddiaeth o gynllun grant disgresiwn y Cyngor ar gyfer unigolion;
- darparu coed Nadolig a'i goleuo yn Llanrug a Cwm y Glo;
- cynnal a chadw'r fynwent yn Llanrug (sydd wedi ennill gwobr genedlaethol)
- trefnu dyddiadau casglu sbwriel Llanrug a Cwm y Glo;
- trefnu rhannu grit i drigolion yn ystod y gaeaf;
- cynnal gwefan y cyngor;
- cynnal a chadw llwybrau cyhoeddus yr ardal
- torri gwair o flaen ystadau
- gweithredu'r cynllun cinio dydd Sul ar gyfer y rhai oedd yn ynysu yn ystod y cyfnod clo.

I'ch ystyried fel aelod o'r Cyngor rhaid bod yn ddinesydd Prydain, y Gymanwlad, Iwerddon neu'r Undeb Ewropeaidd ac yn 18 oed neu'n hŷn, ac yn cyflawni o leiaf un o'r meini prawf canlynol:

- wedi'ch cofrestru fel etholwr llywodraeth leol ar gyfer yr ardal a enwir uchod; neu
- yn ystod y cyfan o'r 12 mis diwethaf, wedi bod yn berchennog neu'n denant tir neu safle arall yn y gymuned a enwir uchod; neu
- wedi bod â'ch prif neu'ch unig weithle yn ystod y 12 mis diwethaf yn y gymuned a enwir uchod; neu
- rydych wedi byw yn y Gymuned, neu o fewn 4.8 cilometr ohoni yn ystod y cyfan o'r 12 mis diwethaf.

Mae rhai pobl penodol wedi'u hanghymhwyso rhag ymgeisio, yn eu plith swyddogion cyflogedig y Cyngor, unrhyw un sy'n destun gorchmynion cyfyngu methdalwyr a'r rheiny sy'n destun dedfrydau o garchar yn ddiweddar.

Gellir cael mwy o fanylion drwy gysylltu a Mr Meirion Jones, Clerc y Cyngor, ar **07769 112875** neu drwy e-bost at **clerc@llanrug.cymru** neu unrhyw un o aelodau presennol y cyngor.

Os ydych a diddordeb, dylech yn y lle cyntaf anfon nodyn o ddatganiad diddordeb at glerc y cyngor erbyn 5:00yh 16 o Hydref 2020.